Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
—
Welsh Parliament
**Public Accounts Committee**

Shan Morgan
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

22 Mawrth 2021

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

Diolch i chi am eich llythyr ar 5 Mawrth, a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Mawrth.

I bob golwg mae paragraff olaf ond un eich llythyr yn gwrthdaro â'r materion a godwyd gyda chi yn ystod y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020, ac yn wir yn ein Hadroddiad ar y gwaith craffu ar Gyfrifon Llywodraethau Cymru ar gyfer 2019-20, a gyhoeddwyd ar 11 Mawrth. Nid dyna oedd ein barn ni, ac mae ein Hadroddiad diweddar yn dod i'r casgliad ein bod wedi argymell yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei pherfformiad yn erbyn yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei Hadroddiadau Blynyddol. At hynny, rydym wedi mynegi ein siom na allech chi gynnig ymrwymiad cliriach i adrodd ar berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y Cyfrifon Blynyddol.

Gwnaethoch ofyn am safbwyntiau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn o ran y fframwaith sy'n datblygu. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'n syrthio o fewn rôl Pwyllgor i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Yn fwyfwy, Llywodraeth Cymru ddylai eu cyflwyno i ni, ac fe ddylai'r Pwyllgor, wedyn, gynnig sylwadau yn eu cylch wrth gynnal gwaith craffu.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

Fodd bynnag, awgrymodd yr Aelodau y dylech chi ystyried – fel rhan o ddatblygiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol – cynnwys y saith nod a'r pum amcan a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyfeirio eich ymateb at Gadeirydd newydd y Pwyllgor olynol.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.